**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD 18 CHWEFROR 2025, DRWY ZOOM AM 6:00 Y.H**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Alan Pritchard, Gwynedd Williams, Philip Roberts, Hefin Jones, Ann Lawton

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Rhys Parry, Berwyn Parry Jones, Cemlyn Jones, Beca Brown

**Clerc:** Meirion Jones

**1414. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod

**1415 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1416. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1417. I dderbyn cofnodion cyfarfod 21 Ionawr 2025**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1418. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

Atgoffwyd pawb yn bresennol fod cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid ar y 4ydd o Fawrth a'r fynwent ar 13 o Fawrth

**1419. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1420. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanrug (Cynghorydd Philip Roberts)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts ei fod wedi mynychu'r ddwy cyfarfod ffurfiol Llywodraethwyr hyd yn hyn yn ystod 24-25 ( y nesaf ar Fawrth 17) ac wedi mynychu cyfarfod yn fis Tachwedd rhwng y pennaeth a swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn â capasiti yr Ysgol.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn Ysgol yn fis Hydref i gyhoeddi blaenoriaethau, cynlluniau, ethol aelodau'r Corff i bwyllgorau arbennig, mabwysiadu polisïau ag yn y blaen. Bydd cynrychiolaeth gan y Cyngor Cymuned

ar bedwar pwyllgor statudol sy'n cyfarfod pan fo angen a hefyd ar bwyllgor Iechyd, Diogelwch ac Adeiladau sydd yn cyfarfod nesaf ar Chwefror 19.

Ymysg materion sydd wedi ei drafod yn ystod y cyfarfodydd y Corff 24-25: capasiti yr Ysgol ; amgylchedd yr Ysgol sef parcio, palmentydd; Tŷ'r Ysgol; cyllid 25-26.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1421. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

**a)** **Rhif y Cais:** C25/0083/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Dymchwel tŷ presennol a chodi ty newydd yn ei le yn cynnwys darpariaeth parcio a tirlunio. Demolition of existing dwelling and the erection of a replacement dwelling including parking provision and landscaping
**Ymgeisydd:** Trystan and Claire Lea
**Asiant:** Mr Gareth Rennie (Hafod Planning Consultants)
**Cyfeiriad:** Bod Gwilym Allt Goch, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DW
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi'r cais

**1422. Cais am grant oddiwrth Llewod Llanrug**

**Penderfynnwyd:** Grant o £850 i Llewod Llanrug

**1423. I apwyntio Cyngor Gwynedd fel archwilwyr mewnol**

**Penderfynwyd:** Apwyntio Cyngor Gwynedd fel Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2024 / 2025

Daeth y cyfarfod i ben am 18:20

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: